Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights
Commission

Pwy sy'n Rhedeg Cymru?

Y ffordd i gydraddoldeb i fenywod

2009

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Wedi'i argraffu yng Nghymru, yn ddi-alcohol ar bapur sydd wedi'i ailgylchu drwy ddefnyddio inciau a seiliwyd â llysiau gan argraffydd ag Achrediad Amgylcheddol ISO 14001

Wedi'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2009

ISBN 978-1-84206-094-0

Rhoi mwy o fenywod ar y llwybr cyflym

Mae Pwy sy'n Rhedeg Cymru? 2009 yn rhoi darlun o fywyd yng Nghymru lle mae ein cyfarfodydd bwrdd yn cael eu gorlethu gan ddynion a nhw'n bennaf sy'n gwneud y penderfyniadau mawr sy'n effeithio ar ein bywydau. Mae'r menywod yn fwy tebygol o fod yn trefnu'r ystafell a chofnodi'r penderfyniadau.

Ar lwyfan y byd, gwelir arweinyddion newydd o gefndiroedd mwy amrywiol. Cafodd Barack Obama ei ethol yn yr Unol Daleithiau a Phrif Weinidog newydd Gwlad yr Iâ, Johanna Sigurdardottir, yw'r lesbiad sydd allan gyntaf yn y byd i gael ei gwneud yn Bennaeth Gwladol. Ond eithriadau yw'r rhain.

Yn nes at adref, araf yw'r cynnydd o ran penodi mwy o fenywod i swyddi o awdurdod. Yn wir, mae'r adroddiad hwn yn dangos y gallai'r sefyllfa ddirywio os na fyddwn yn mynd ati ar frys i gyflymu'r camau ar gyfer newid.

Eleni, edrychwn ar bwy yw ein gwleidyddion etholedig a phwy sy'n rhedeg ein hawdurdodau cyhoeddus, yn y sector preifat a'r cyfryngau.

Mae yna lai o fenywod ar frig ein GIG, a llai o fenywod yn benaethiaid mewn ysgolion uwchradd nag oedd yn 2006. O'r 93 prif weithredwr sy'n rhedeg busnesau mwyaf llwyddiannus y sector preifat yng Nghymru, nid oes un menyw.

Mae gennym ychydig mwy o gynghorwyr sy'n fenywod nag oedd yn 2006 – er hynny, dim ond 25% o'r holl gynghorwyr sy'n fenywod.

Ar y cyfan, fodd bynnag, ers 2004 ni wnaed bron i ddim cynnydd o ran gwella cydbwysedd rhyw ar fyrddau gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Nid 'mater i fenywod' yn unig yw hwn yn ein tyb ni. Mae'n tanlinellu'r methiant ehangach i sicrhau bod y coridorau pŵer yn ein sefydliadau'n adlewyrchu ehangder ein cymdeithas ac yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig.

Mae yna wers i'w dysgu o'n darganfyddiadau - nid yw bwriadau da'n ddigon. Mae'n rhaid cymryd camau pendant er mwyn penodi menywod i swyddi o awdurdod yng Nghymru. Rydym eisiau rhoi menywod ar y llwybr cyflym ar frys. Os ydych chi'n rhannu'r un uchelgais â ni hoffem gydweithio â chi - felly cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

Neil Wooding – Comisiynydd Cymru

Kate Bennett – Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru

Arweinwyr Gwleidyddol

O ganlyniad i etholiad 2003, llwyddwyd i gael cydraddoldeb rhyw yn ein cynrychiolaeth yn y Cynulliad. Mae'r ffigwr wedi syrthio rhywfaint ers etholiad 2007, o 30 Aelod o'r Cynulliad sy'n fenywod i 28 (47%). Gwelir amrywiadau sylweddol rhwng pleidiau – mae 70% o AC Llafur yn fenywod ond dim ond 8% o AC y Blaid Geidwadol yn fenywod.

Mae nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru sy'n fenywod yn cynyddu'n gyson. Yn etholiad cyffredinol 1992, dim ond un fenyw gafodd ei hethol. Ym 1997, etholwyd pedair menyw a chawsant eu hail-ethol yn 2001. Yn 2005, cynyddodd nifer yr AS a oedd yn fenywod i wyth. Mesurau arbennig yn y Blaid Lafur oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn. Ar hyn o bryd, dim ond un AS benywaidd sydd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru, mae gan y blaid Lafur saith ac nid oes gan Geidwadwyr Cymru na Phlaid Cymru'r un AS benywaidd.

Eleni, mae'r pleidiau gwleidyddol wrthi'n penderfynu pwy a ddylai gynrychioli etholaethau a rhanbarthau Cymru yn etholiadau'r Cynulliad – a gaiff eu cynnal yn 2011. Bydd y pleidiau'n ystyried dulliau dethol ar gyfer etholiadau cyffredinol yn y dyfodol.

Ar ôl yr etholiadau lleol y llynedd, dim ond dau o arweinyddion cynghorau sy'n fenywod a dim ond un o bob pedwar o'n cynghorwyr sy'n fenywod. Nid oes gennym unrhyw gynghorwyr benywaidd sy'n ddu neu'n Asiaidd yng Nghymru.

Mae'n amlwg nad yw bwriadau da'n ddigon. Mae gosod mesurau arbennig, megis rhestrau byr o fenywod yn unig, yn ddull allweddol o sicrhau bod menywod yn cael eu dewis fel ymgeiswyr a'u hethol.

Mae gennym ffordd bell i fynd cyn y bydd ein cynrychiolwyr etholedig yn llwyr adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru, ond mae cyfle i gymryd camau sylweddol ar hyd y daith hon. Trwy gael panel dethol mwy amrywiol, ynghyd â mesurau arbennig, gellid cael ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau San Steffan, y Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol.

Byddwn ni'n annog pleidiau gwleidyddol i ddefnyddio mesurau arbennig er mwyn cynyddu nifer yr ymgeiswyr benywaidd a ddewisir ar gyfer seddau y gellid eu hennill. Byddwn ni hefyd yn cydweithio'n agos â'r pleidiau gwleidyddol, y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael gwared â'r rhwystrau sy'n wynebu menywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl pan fyddant yn ymgeisio am swydd gyhoeddus.

Cydbwysedd Rhywiol y % 2009

Ein cynrychiolwyr etholedig



Pam fod angen i ni newid gêr

Mae'r argoel o ddirywiad economaidd byd-eang wedi peri i ni ganolbwyntio ein sylw ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar y lefel uchaf. Mae rhai sylwebyddion wedi holi a fyddai argyfwng y banciau wedi digwydd pe bai byrddau rheoli'n fwy amrywiol.

Mae profiad personol yn rhan bwysig o benderfyniadau pobl. Felly, os daw'r sawl sy'n penderfynu o ran fechan o'r gymdeithas, yna bydd anghenion y mwyafrif yn cael eu diystyru. Mae penderfyniadau gwael yn amharu ar fywydau pob un ohonom.

Mae'r ymchwil, a'r dystiolaeth a gasglwyd yng Nghymru, yn nodi bod cael mwy o amrywiaeth ar fyrddau rheoli'n arwain at gael gwahanol faterion ar yr agenda a'u trafod mewn cyfarfodydd. Mae yna fwy o debygolrwydd y bydd penderfyniadau'n ystyried safbwyntiau ehangach ac yn adlewyrchu ein hanghenion gwahanol. Mae amrywiaeth yn helpu sefydliadau i uniaethu'n well â'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod menywod yn benderfynol o wneud penderfyniadau sydd â chefnogaeth ehangach.

Felly, nid dim ond penodi mwy o fenywod i swyddi uwch yw ein nod, – ein nod yw newid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau er mwyn ystyried anghenion pawb.

Dyna pam y mae'n bwysig fod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pawb yn hanu o'r boblogaeth gyfan ac nid o ran fechan ohoni'n unig.

Magu cyflymder

Hoffem weld sefydliadau'n cymryd camau i ymdrin â'r gwahaniaethu sy'n dal menywod yn ôl. Mae gwir angen i ni fagu cyflymder mewn sawl ffordd.

Yn gyntaf, hoffem weld pob cyflogwr yn hysbysebu pob swydd yn agored, yn hytrach na dibynnu ar rwydweithiau. Bydd penodiadau'n decach os oes yna feini prawf a gweithdrefnau dethol clir ac agored. Gallai cyflogwyr a chyrff cyhoeddus fod yn llawer mwy creadigol yn y dulliau a ddefnyddir ganddynt i geisio cael mwy o geisiadau oddi wrth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chael gwared â'r rhwystrau yn eu gweithdrefnau recriwtio a dyrchafu.

Yn ail, gall diwylliant gweithio oriau hir Cymru rwystro rhai menywod rhag camu ymlaen yn eu gyrfaoedd. Gall fenywod cael eu hatal rhag camu ymlaen gan rhagdybiaethau hen ffasiwn, megis bod ymrwymiad i swydd yn cael ei fesur yn ôl yr oriau a weithir – diwylliant o oriau hir, oriau hwyr ac oriau caeth. Gallai ailfeddwl y dull hwn olygu bod mwy o fenywod yn camu ymlaen yn y sefydliad.

Yn drydydd, mae edrych ar ôl y cartref a gweithio'n her i bob un ohonom, ond mae'n anoddach fyth i fenywod. Yng Nghymru, lle ceir ond ychydig o ddewisiadau gofal plant, mae'r anawsterau'n fwy o lawer. Mae mwy na 70% o gynhalwyr yn gadael eu swyddi am fod eu hymrwymiadau gwaith a gofalu'n gwrthdaro. Mae menywod sydd â chyfrifoldebau teuluol yn cael digon o anhawster i gyrraedd swyddi ar ganol ysgol yrfaol sefydliad, heb sôn am swyddi uwch. Ond, mae cyflogwyr sy'n flaengar yn eu hymdrechion i gynnig cymorth i rieni a chynhalwyr sy'n gweithio, a chynnig cyfleoedd gwaith sy'n wirioneddol hyblyg, yn dweud bod mwy o fenywod yn cymryd swyddi uwch yn y sefydliadau hyn a bod y cyfraddau cadw gweithwyr yn well.

Yn sownd yn yr ail gêr

Mae'r cynnydd a wneir tuag at gydraddoldeb rhyw yn parhau'n llawer rhy araf.

Ar ôl i ni gysylltu â phob un o'r busnesau a restrwyd fel y 100 cwmni gorau yng Nghymru, ymatebodd naw deg tri ohonynt ac o'r rhain, nid oes un prif weithredwr benywaidd. Mae'r canlyniadau syfrdanol hyn yn amlygu'r rhwystrau llethol y mae menywod yn dal i'w hwynebu yn y sector preifat.

Er gwaetha'r ffaith mai menywod yw'r mwyafrif o weithlu'r sector cyhoeddus, mae'r cynnydd i benodi menywod i swyddi o awdurdod yn araf tu hwnt.

Yn y GIG, mae 79% o'r gweithlu'n fenywod, ond dim ond 3 menyw sydd ymhlith y 13 prif weithredwr yn Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n cael eu dal gan fenywod. Ers 2006, mae nifer y prif weithredwyr benywaidd mewn awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cynyddu o 9% i 21%.

Mae nifer y menywod sydd ar Fyrddau ein Cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad wedi syrthio – o 33% i 30%. Dim ond 1 o'r 10 prif weithredwr ar Gyrff a Noddir sy'n fenyw.

Mae rhai rhannau o'r sector cyhoeddus wedi gwneud cynnydd ers ein hadroddiad yn 2006. Mae Pennaeth newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n fenyw ac mae ei Bwrdd Rheoli wedi gweld nifer yr aelodau sy'n fenywod yn cynyddu o 12% i 30% yn y ddwy flynedd diwethaf.

Ychydig iawn sydd wedi newid ym myd addysg. Mae'r canran o fenywod sy'n brifathrawon mewn ysgolion uwchradd wedi syrthio o 19% i 16% ers 2006.

Mae'r modd y mae'r cyfryngau'n portreadu'r gwahanol grwpiau yn ein cymdeithas yn dylanwadu'n fawr ar sut yr ydym yn gweld ein gilydd. Dyna pam ei bod mor bwysig, yn ein tyb ni, fod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau yng nghorfforaethau'r cyfryngau yn cynrychioli'r gymdeithas. Mae timau rheoli uwch ein darlledwyr mwyaf yng Nghymru yn 44% benywaidd. O ran y papurau newydd rydyn ni wedi'u harolygu, Golwg, y cylchgrawn Cymraeg wythnosol, yw'r unig un sydd â golygydd benywaidd.

Ychydig iawn o gynnydd a welwyd dros y tair blynedd diwethaf yng nghoridorau pŵer o ran cydraddoldeb rhyw. Mae Cymru'n colli cyfoeth o dalent a'r cyfle i gael prosesau penderfynu mwy effeithiol yn ystod cyfnod o ddirywiad economaidd - pan na ellir fforddio gwneud hynny. Gyda'n gilydd, gallwn newid hynny.

Iechyd

Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG

Holl staff y GIG

Llywodraeth Leol

Prif Weithredwyr yr awdurdodau lleol

Holl staff yr awdurdodau lleol

Addysg

Is-ganghellorion Prifysgolion

Penaethiaid Colegau Addysg Bellach

Prifathrawon ysgolion uwchradd

Athrawon i gyd

Cydbwysedd Rhywiol y % 2009

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Bwrdd Rheoli Llywodraeth Cynulliad Cymru

Holl staff Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyrff a Noddir

Prif Weithredwyr Cyrff a Noddir gan y Cynulliad

Aelodau Bwrdd Cyrff a Noddir gan y Cynulliad

Heddlu

Cadeiryddion Awdurdod yr Heddlu

Prif Gwnstabliaid yng Nghymru

Holl heddgeidwaid Cyrmu

Benyw
Gwryw

Sector preifat

Prif Weithredwyr y 100 cwmni preifat gorau yng Nghymru

Cyfryngau

Cadeiryddion a rheolwyr prif ddarlledwyr

Aelodau Rheoli Uwch y prif ddarlledwyr

Golygyddion papurau newydd dyddiol ac wythnosol

Undebau llafur

Pwyllgor Gweithredol TUC Cymru

Cynrychiolwyr Cynhadledd Flynyddol TUC

Nod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw lleihau anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, meithrin cysylltiadau da rhwng pobl, a hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu â ni, ewch i'n gwefan:
www.equalityhumanrights.com

neu ffoniwch ein llinell gymorth:

Ffôn: **0845 604 8810**
Ffôn testun: **0845 604 8820**
Ffacs: **0845 604 8830**

Gallwch weld yr adroddiad hwn a chael rhagor o wybodaeth yn:
www.equalityhumanrights.com/wales

Gallwch gael copi drwy anfon e-bost at y Comisiwn yng Nghymru:
wales@equalityhumanrights.com

Ffynonellau

Casglwyd yr holl ddata rhwng Rhagfyr 2008- Chwefror 2009

Senedd, Cynulliad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth Leol ac Addysg:
Blwyddlyfrau Cymru 2008 a 2009.
Gwefan Senedd y DU.
Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Gwefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Gwefannau Awdurdodau Lleol Cymru.

Heddlu:
Cynllun Plismona Cenedlaethol Cymru
Heddlu Dyfed a Phowys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru

Undebau Llafur:
Cynhadledd Flynyddol 2008 TUC Cymru, Dadansoddiad Ystadegol o'r Cynrychiolwyr

GIG:
Rhestr staff Tachwedd 2008 – Cydraddoldeb Rhyw o fewn grwpiau galwedigaethol arbennig yn y GIG
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru – crynhoad o'r ystadegau blynyddol

Cyfryngau:
Gwefan MediaUK
Gwefan y BBC
Ymholiadau uniongyrchol

Sector Preifat:
Y 100 cwmni gorau yng Nghymru